# Prosiect yr Archwilwyr Insight

## Hydref 2022 – Medi 2023



# Cyflwyno Archwilwyr Insight

Mae Archwilwyr Insight yn brosiect Innovate Trust a ariennir gan Gronfa Grantiau Strategol CGGC. Mae'r prosiect wedi ein galluogi ni i gwblhau gwerthusiad o Insight dan arweiniad aelodau er mwyn adolygu sut mae pobl yn ymgysylltu â'r ap a beth mae'n ei olygu i'w ddefnyddwyr ar ôl y cyfnod clo.

Mae hefyd wedi rhoi cyfle gwerthfawr i ni aros, myfyrio a phwyso a mesur i sicrhau bod yr ap yn parhau i ddiwallu anghenion newidiol defnyddwyr ar ôl cyfnod cynnar o dwf cyflym.

Prif ffocws y gwaith gwerthuso hwn oedd ystyried rôl gwirfoddoli o fewn yr ap a sut mae hyn yn ychwanegu at un o brif amcanion Insight o leihau ynysrwydd cymdeithasol ac unigrwydd ar gyfer ei ddefnyddwyr.

Trwy gydol y prosiect, ein prif flaenoriaethau fu:

- Gwrando ar ddefnyddwyr Insight a threialu digwyddiadau newydd yn seiliedig ar eu hawgrymiadau hwy
- Deall sut mae Insight yn taclo unigrwydd ac i fyfyrio ar sut all gwirfoddoli amddiffyn rhag unigrwydd ac ynysrwydd
- Ystyried sut allwn hyrwyddo gwirfoddoli yn well ar Insight
- Cefnogi aelodau Insight i adolygu pa mor hygyrch yw'r ap.





Innovate Trust


# Gadewch i ni gychwyn gyda rhai ystadegau allweddol



- Ym Medi 2023 cyfrifodd Insight 1809 o aelodau a 98 o grwpiau – mae hyn yn cymharu â 1658 o aelodau a 93 grŵp ar ddechrau'r prosiect yn Hydref 2022.
- Mae Insight yn cyflwyno 20 sesiwn ar-lein ar gyfer ei aelodau bob wythnos ar gyfartaledd.
- Mae aelodau yn defnyddio Insight am 1 awr a 40 munud bob dydd ar
- gyfartaledd.
  Mae Insight ar hyn o bryd yn cyfrif dros 100 o bartneriaid a hwyluswyr sy'n helpu cyflwyno gweithgareddau a chreu cynnwys. Mae'r rhif hwn yn tyfu o hyd.
- Mae 31 o aelodau yn gwirfoddoli i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau fel rhan o'r tîm dan arweiniad cyfoedion.
- Mae partneriaid a defnyddwyr Insight wedi'u lleoli yng Nghymru gan mwyaf ond does dim cyfyngiadau daearyddol ar yr ap gyda rhai defnyddwyr yn cael mynediad o Loegr a'r Alban.

Innovate Trust


# Y broses ymgynghori



Gweithiodd staff o adran Sgiliau a Lles Innovate Trust ochr yn ochr â’r tîm dan arweiniad cyfoedion i gwblhau ymgynghoriad trylwyr am yr ap. Roedd yn bwysig i ni ymgynghori gydag amrywiaeth eang o bobl ac nid ein defnyddwyr rheolaidd yn unig, er mwyn cael darlun clir o beth mae’r ap yn ei gyflenwi ar hyn o bryd ond hefyd i ddeall yn well ei botensial i’r dyfodol.

Roedd hyn yn golygu estyn allan i:

- Aelodau gweithredol Insight
- Pobl sydd wedi cofrestru/ymuno ag Insight ond nad ydynt yn ymgysylltu â’r ap
- Unigolion nad ydynt yn defnyddio’r ap hyd yma – aelodau newydd posibl
- Partneriaid presennol
- Sefydliadau partner posibl
- Ysgolion Arbennig lleol
- Cynghorau Gwirfoddoli ledled y wlad




Fel rhan o'r broes ymgysylltu, anfonom arolwg i'r holl sefydliadau partner sy'n aelodau o Insight ar hyn o bryd i ofyn am eu hadborth a'u myfyrdodau ar yr ap. Cynigwyd cyfarfod dilynol un i un i siarad mewn manylder am eu hymatebion i'r arolwg.

Roedd yn glir fod sefydliadau partner yn gyffredinol wedi cael yr ap yn ddefnyddiol dros ben yn ystod y pandemig; roedd Insight o fudd mawr iddynt ac wedi cyfrannu at eu gallu i ddal ymlaen gyda'u darparu gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn. Ar ôl y pandemig, mae rhai sefydliadau yn parhau i fod yn ddefnyddwyr brwd o'r ap, tra bod eraill wedi symud yn ôl i fodelau cefnogaeth cyn-bandemig.

Yn symud ymlaen, adnabuom yr angen i aildanio'r berthynas gyda sefydliadau partner ar yr ap a'u cefnogi i adnabod buddion parhaus Insight mewn cyd-destun ôl-bandemig. Mae risg real iawn y gallai'r dysgu ac agweddau o'r pandemig, megis y parodrwydd i fod yn barod i addasu, trio dulliau newydd o ddarparu gwasanaeth a manteisio/croesawu/elwa ar dechnoleg ddigidol, gael eu hanghofio. Mae hwn yn bwynt i'r trydydd sector ehangach fod yn ymwybodol ohono a'i drafod.

# Gwersi dros y 3 mlynedd ddiwethaf

Gweithiom gyda thîm Cynhwysiad Digidol Innovate Trust i adnabod y gwersi a ddysgwyd o bersbectif datblygu a chyflenwi dros y 3 mlynedd diwethaf. Roedd ein casgliadau fel a ganlyn:

**Heriau Gallu i Dyfu ac Uwchraddiadau Isadeiledd Critigol**
Un o'r heriau mwyaf a wynebom oedd y cynnydd sydyn yn nefnydd yr ap. Wrth i'r nifer o aelodau cymuned dyfu'n sydyn yn ystod COVID, cafodd ein hisadeiledd fel ag yr oedd drafferth ymdopi â'r llwyth. Gwnaeth hyn hi'n angenrheidiol i brynu lle ychwanegol ar y gweinydd i sicrhau sefydlogrwydd a pherfformiad yr ap. Roedd buddsoddi mewn isadeiledd a allai dyfu yn hanfodol er mwyn diwallu galw cynyddol ein sylfaen defnyddwyr a oedd ar dwf.

**Ymdrechion Caffael Defnyddwyr a Chynefino**
Fe brofodd mynd allan i'r gymuned a chofrestru aelodau newydd yn agwedd hollbwysig o waith Innovate Trust. Sylweddolom bwysigrwydd ymgysylltu'n weithredol gyda defnyddwyr posibl, gan hyrwyddo nodweddion yr ap, ac esbonio'i fanteision. Fodd bynnag, adnabuom hefyd fod prosesau cynefino symlach yn angenrheidiol er mwyn gwella profiad defnyddwyr o'i fabwysiadu, a lleihau ffrithiant yn ystod y cam sefydlu cychwynnol.

**Adborth Defnyddwyr a Gwelliannau Iteraidd**
Trwy gydol y tair blynedd, fe gasglom adborth gan aelodau'n weithredol, a chwaraeodd hyn rhan bwysig wrth siapio esblygiad ein ap. Darparodd defnyddwyr fewnwelediadau gwerthfawr, adnabuont feysydd i'w gwella, ac adroddasant ar faterion y deliom â hwy yn brydlon. Trwy gynnal cylchred adborth agored, roeddem yn gallu sicrhau gwelliant iteraidd yn swyddogaethau'r ap, profiad defnyddwyr, a bodlonrwydd â'r ap yn ei gyfanrwydd. Mae rhan benodol yr ap ar gyfer syniadau hefyd wedi chwarae rhan yn ein helpu ni i lywio ein siwrne.

Innovate Trust

## Cymedroli Cymunedol a Rheoli Cynnwys

Wrth i niferoedd aelodau dyfu, daeth rheoli cynnwys a grëwyd gan ddefnyddwyr a sicrhau ymddygiad addas o fewn yr ap yn gynyddol bwysig. Daethom ar draws achlysuron lle'r oedd angen mireinio’r prosesau cymedroli ac angen adnoddau ychwanegol. Roedd yn hollbwysig i ni daro cydbwysedd rhwng hwyluso mynegiant rhydd a chynnal amgylchedd diogel a pharchus ar gyfer ein holl ddefnyddwyr.

## Hygyrchedd a Dyluniad Cynhwysol

Dysgom fod blaenoriaethu hygyrchedd ac egwyddorion dyluniad cynhwysol yn gwella profiad defnyddwyr yn ei gyfanrwydd yn sylweddol. Roedd rhoi nodweddion megis meintiau ffont cyfaddasol, dyfeisiadau cydweddol, a chefnogaeth i ieithoedd a diwylliannau amrywiol yn ehangu cyrhaeddiad ein ap ac yn gwella ei ddefnyddioldeb ar gyfer amrywiaeth eang o aelodau cymuned.

## Preifatrwydd a Diogelwch Data

Rydym yn gwerthuso a diweddaru ein mesurau diogelwch yn barhaus er mwyn diogelu gwybodaeth defnyddwyr. Roedd cryfhau ein protocolau trwy weithredu mecanweithiau gwirio diogel, ac archwilio ein systemau’n rheolaidd yn gamau hanfodol wrth gynnal ffydd defnyddwyr. Rydym hefyd y sicrhau ein bod yn cael archwiliadau rheolaidd o’n ap er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd safonau diogelwch.

## Diweddariadau Rheolaidd a Thrwsio Namau

Er mwyn ymateb i adborth, cyflwyno nodweddion newydd a datrys problemau, fe wnaethom fabwysiadu agwedd ddisgybledig o ddiweddariadau rheolaidd a thrwsio namau. Trwy flaenoriaethu ac ymgorffori gwelliannau defnyddwyr canolog, fe ddangosom ein hymrwymiad i fireinio perfformiad yr ap yn barhaus.

Mae pob agwedd a grybwyllwyd uchod wedi dysgu gwersi pwysig i ni sydd wedi cyfrannu at dwf a llwyddiant yr ap yn ei gyfanrwydd.

# Insight – ap dan arweiniad aelodau

Mae ymagwedd o ganolbwyntio ar yr unigolyn wrth galon popeth a wnawn yn Innovate Trust. Caniataodd Archwilwyr Insight ni i ymgynghori ag aelodau Insight i ystyried eu hawgrymiadau am weithgareddau newydd ar-lein, ac felly gadw'r unigolion rydym yn eu cefnogi yn ganolog i'r prosiect. Mae hyn yn sicrhau bod yr ap yn aros yn ffres ac yn dal ati i ddarparu beth mae'r aelodaeth ei eisiau.

Dros gyfnod y prosiect rydym wedi peilota'r sesiynau canlynol wedi'u selio'n gyfan gwbl ar awgrymiadau aelodau:


- Bol-ddawnsio (Stephanie Gwane-Hamza)
- Dawnsio Bollywood (Bollywood Vibes a Nisa Aleem)
- Crefft Ymladd (Adaptive Martial Arts)
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
- Pypedwaith (Magic Light Productions)
- Clubbercise (Anna Wilson)
- Ioga wyneb (Echo Yoga)
- Mynegiant creadigol ac actio (House of Deviant)
- Gwyddoniaeth Sw (Sw Fynydd Cymru)
- Hyfforddaint Sgillau Zoom (Digital Communities
- Wales)
- Sgiliau Hud a Lledrith (Leigh Milne)
- Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad (SVC)






Innovate Trust

# Taclo unigrwydd




Rydym yn gwybod bod Insight yn declyn gwerthfawr i gefnogi iechyd meddwl a lles pobl trwy ddarparu lle saff a diogel i aelodau gysylltu â chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd. Yn wir, dyma pam y gwthiwyd yr ap i mewn i gam datblygu mor gyflym yn ystod y cyfnod clo pan oedd ynysrwydd cymdeithasol ac unigrwydd yn bryder gwirioneddol i ni gyd.

Edrychodd Archwilwyr Insight yn fwy penodol ar rôl gwirfoddoli mewn lleihau ynysrwydd cymdeithasol. Fe wnaethom archwilio sut mae Insight yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli sy'n creu cysylltiadau cymdeithasol ar-lein yn ogystal ag wyneb yn wyneb. Mae gan Insight bellach 31 aelod gwirfoddol sy'n cynnal sesiynau ar-lein ar gyfer eu cyfoedion. Mae yno hefyd amrywiaeth ffantastig o gyfleoedd gwirfoddoli ar gael ar yr ap megis rolau hyfforddwr yoga gwirfoddol, rolau gerddi cymunedol, rolau cefnogi cynghreiriaid a llawer mwy.

Fodd bynnag, canfu'r prosiect fod aelodau Insight yn awyddus i gael mwy o gyfleoedd gwirfoddoli, ac i'r rheiny fod ar gael yn fwy parod a hygyrch ar yr ap.

# Gweledigaeth newydd  i wneud gwirfoddoli yn fwy cynhwysol

Trwy ein proses ymgynghori, rydym wedi adnabod fod y bobl rydym yn eu cefnogi yn cael trafferth dod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli addas am nifer o resymau; nid ydynt yn gwybod fod gwirfoddoli yn opsiwn iddynt, nid ydynt yn gwybod lle i chwilio am gyfleoedd neu pa gyfleoedd gwahanol sy'n bodoli, nid ydynt y teimlo'n hyderus y byddent yn cael eu cefnogi gan y sefydliadau dan sylw, nid ydynt yn gwybod sut i wneud cais... mae'r rhwystrau yn niferus!

Fe wnaethom ofyn pa wybodaeth fyddai yn gwneud unigolion deimlo yn fwy hyderus am wirfoddoli. Dywedont hwy wrthym ni eu bod eisiau:

- gallu ymchwilio sefydliad a gwybod a yw'n 'ddiogel', er enghraifft a oes gan y sefydliad brofiad o gefnogi pobl gydag anableddau dysgu ac a fyddent yn 'fy neall i'.
- Gwybodaeth ar sut i ymddwyn wrth wirfoddoli fel bod ganddynt reolau clir i'w dilyn.
- Gwybodaeth ynglŷn â hygyrchedd gwahanol leoliadau a sut i gyrraedd yno; roedd hyn yn achos pryder mawr i lawer.
- Gwybodaeth hygyrch - roeddent eisiau teimlo'n hyderus fod y wybodaeth yn cael ei roi mewn fformat a fyddai'n ddealladwy iddynt hwy.
- Gwybod faint o bobl y byddent yn dod i gysylltiad â hwy wrth wirfoddoli.
- Gwybod pa hyfforddiant fyddai'n cael ei roi ac ym mha fformat.

O ran pa fformat y dylai gwybodaeth gael ei gyflwyno ynddo, awgrymwyd y canlynol, sy'n adlewyrchu'r amrywiol ffyrdd y mae angen ystyried anghenion hygyrchedd:

| | | |
|---|---|---|
| Ffotos | Fideos byr | Iaith Arwyddion Prydain |
| Hawdd ei ddarllen | Clipiau sain | Makaton |

Dysgom trwy ymgynghori gyda'n partneriaid fod dymuniad o fewn sefydliadau sy'n croesawu gwirfoddolwyr i wneud eu prosesau yn fwy cynhwysol ac i wella gweithdrefnau pan mae hi'n dod i weithio gyda gwirfoddolwyr ac anghenion ychwanegol.

Er enghraifft, dywedodd Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg eu bod yn aml yn dod ar draws sefydliadau sy'n nerfus ac ansicr am roi cefnogaeth i bobl gydag anableddau ac y byddent yn ei chael yn ddefnyddiol i gael rhywle i'w cyfeirio neu rywbeth iddynt ei anfon atynt yn esbonio pa fathau o bethau fuasent yn gallu eu rhoi yn eu lle i wella eu hymarfer.

Fe wnaeth hyn ein harwain i ystyried creu gofod penodol ar gyfer gwirfoddoli ar Insight - The Volunteer Hub / Yr Hwb Gwirfoddoli.
Ein nod yw i hwn fod y gofod "lle i fynd" ar gyfer aelodau Insight i gael gwybodaeth hygyrch am gyfleoedd gwirfoddoli lleol ond hefyd gyngor ac arweiniad ar sut i wirfoddoli.
Byddai hefyd yn declyn defnyddiol ar gyfer sefydliadau sydd eisiau gweithlu gwirfoddol mwy amrywiol trwy ddarparu tŵls, tipiau ac adnoddau  i wneud y broses o wirfoddoli yn symlach ac yn fwy hygyrch.
Mae hyn yn ddatblygiad cyffrous i ap Insight a allai ehangu'r tirlun gwirfoddoli trwy ei wneud yn fwy cynhwysol.






# Adolygu hygyrchedd gyda defnyddwyr Insight

Mae hi mor bwysig fod Insight mor syml a hygyrch a phosibl i'w ddefnyddwyr. Er bod Insight wedi ei greu gyda hygyrchedd wrth galon ei ddyluniad – fe alluogodd prosiect Archwilwyr Insight ni i ddal i fyny gyda defnyddwyr Insight i gael eu meddyliau ar ba mor hygyrch yw'r ap fel mae'n sefyll. Yn sicr fe heriodd y darn hwn o waith ein rhagdybiaethau am hygyrchedd a datgelu'r prif feysydd lle mae angen newid. Dysgom:

- Nad yw eiconau a ystyrir yn adnabyddus i bawb yn hawdd i bawb eu hadnabod
- Y ffafrir gosodiad steil calendr traddodiadol ar gyfer digwyddiadau Insight.
- Bod pobl eisiau hyd yn oed mwy o ddelweddau i gyfannu testun lle'n bosibl.
- Bod galw am fwy o adnoddau hawdd eu darllen ar draws yr ap
- Bod arnom angen ystyried sut i gynnal nodweddion diogelwch hanfodol Insight heb effeithio ar hygyrchedd gyda llawer yn cael y broses mewngofnodi'n heriol.

Roedd y broses ymgynghori hon mor ddadlennol a bydd yn llywio ein hymarfer wrth symud ymlaen. Byddwn yn edrych i wreiddio profion ac adolygiadau hygyrchedd rheolaidd i ddatblygiad yr ap a'r hwb gwirfoddoli yn y dyfodol.



# Heriau a wynebwyd

Er ein bod yn teimlo y bu'r prosiect yn llwyddiant ar y cyfan, nid oedd heb ei heriau. Roedd yn bwysig i ni fod unrhyw ymgynghoriad prosiect wir yn adlewyrchiad o'r gymuned anableddau dysgu. Roeddem eisiau sicrhau ein bod yn ymgysylltu gyda defnyddwyr Insight gweithgar iawn, y rhai nad oedd yn defnyddio'r ap o gwbl, a phawb yn y canol.

Mae wedi bod yn broses anodd i wneud yn siŵr bod yr ymgynghoriad a wnaethpwyd gyda phobl ag anableddau dysgu wir yn gynrychiadol a bod y casgliadau a ddaethpwyd iddynt felly yn ystyrlon. I'n helpu cyflawni hyn, fe wnaethom hwyluso sesiynau ymgynghori ar-lein ac wyneb yn wyneb ar draws lleoliadau amrywiol, ac rydym wedi mynychu digwyddiadau a arweiniwyd gan ddarparwyr eraill er mwyn dal unigolion na fyddai yn ymgysylltu ar eu liwt eu hunain fel arall. Rydym hefyd wedi cwblhau ymgynghoriadau un i un gydag unigolion yn eu cartrefi eu hunain lle'r oedd yn glir na allem gasglu eu hadborth mewn unrhyw ffordd arall. Mae'r broses hon wedi ein hannog i fyfyrio ar beth sy'n gwneud ymgynghori ystyrlon a bydd yn llywio ein cynlluniau ymgynghori i'r dyfodol o fewn ein hadran ni ac Innovate Trust.

Rydym hefyd wedi myfyrio ar y defnydd o grŵp cyfoedion fel rhan o'r prosiect. Y bwriad oedd i'r grŵp hwn o unigolion ymgysylltu gyda'r aelodaeth ehangach a chymryd mwy o arweiniad ar yr ymgynghoriad. Er bod y grŵp yn help mawr pan ddaeth i roi adborth ar gyfeiriad Insight a materion penodol a archwiliwyd gan y prosiect, daeth yn glir eu bod yn ei chael yn anodd rhoi eu hunain yn esgidiau'r rhai oedd gan anghenion mwy dwys na'u rhai hwy. Mae hyn yn codi ystyriaethau ynglŷn ag i ba raddau y gall unrhyw grŵp o unigolion gynrychioli cymuned ehangach o bobl. Yn amlwg mae gan grwpiau fel hyn eu lle o fewn prosiectau ymchwil a llawer o sefyllfaoedd eraill, ond mae angen bod yn ymwybodol o fanteision ac anfanteision dilyn y dull hwn yn unig.

# Dathlu llwyddiant!




I nodi diwedd prosiect Archwilwyr Insight, fe gynhaliom ddigwyddiad rhannu gwybodaeth yn Insole Court yng Nghaerdydd. Y thema oedd 'Insight yn y Byd Go Iawn' a daeth y digwyddiad a phobl ag anableddau dysgu, pobl broffesiynol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydliadau partner at ei gilydd i ddysgu am brif ddarganfyddiadau prosiect Archwilwyr Insight. Roedd gan sefydliadau partner amrywiol stondinau yn y digwyddiad, tra bod rhai o hwyluswyr mwyaf poblogaidd Insight yn rhedeg fersiynau blasu o'u sesiynau. Roedd gennym hefyd ystafell Insight lle gallai unigolion gael gwybod mwy am yr ap a chofrestru.

Mynychodd dros 170 o unigolion ar y diwrnod ac roedd yn ffantastig i glywed cymaint o sgyrsiau am yr ap Insight! Fe roddodd y digwyddiad gyfle i unigolion ddeall mwy am beth sydd gan Insight i'w gynnig ac annog partneriaid i ystyried sut allai Insight barhau i weithio iddynt hwy.

Innovate Trust

# Defnyddio'r dysgu

Mae gan gasgliadau o'r prosiect Archwilwyr Insight ddefnydd i'r trydydd sector yn ehangach.

- Canfu ymgynghoriad gyda phartneriaid prosiect fod sefydliadau wedi eu gyrru i addasu i ddarparu gwasanaeth digidol er mwyn aros yn weithredol yn ystod y pandemig. Nawr mae angen clir i gefnogi'r sector i barhau i adnabod buddion darpariaeth ar-lein a chyfunol ac i beidio â gadael i wersi a ddysgwyd o'r pandemig lithro i ffwrdd.
- Mae angen mwy o fuddsoddiad mewn cefnogaeth dechnolegol yn y gymuned. Er ein bod wedi rhoddi nifer anferth o ddyfeisiadau clyfar ar ein cost ein hunain mewn ymdrech i atal tlodi digidol, mae dal angen cefnogaeth barhaus a ellir ei ddarparu o fewn y cartref i sicrhau bod y rhai sy'n ei chael anoddaf i gyrraedd gweithgareddau yn gallu meithrin eu sgiliau digidol. Mae hwn yn fater ehangach na'r prosiect presennol a byddai angen ariannu cynaliadwy ac ymroddiad gan sefydliadau eraill sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu. Y math hwn o gefnogaeth allgymorth digidol fyddai'r ffordd orau o gyrraedd unigolion na chlywir ganddynt yn aml ac nad ydynt yn ddefnyddwyr rheolaidd yr ap nac chwaith wasanaethau eraill.
- Fel sector rydym yn parhau i wneud rhagdybiaethau ynglŷn â hygyrchedd, gan gynnwys beth yn union yw ystyr hygyrchedd a beth sy'n gwneud rhywbeth yn hygyrch. Mae'n bwysig bod ein rhagdybiaethau yn cael eu herio'n barhaus ac mae angen i sefydliadau fod yn rhagweithiol am wreiddio profion hygyrchedd i'w hymarfer. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw faes gwaith, gan gynnwys cefnogaeth gwirfoddolwyr.
- Mae pobl sydd ag anableddau dysgu yn ei chael yn anodd defnyddio llwyfannau gwirfoddoli sydd wedi eu cynllunio ar gyfer cynulleidfa prif lif, neu mewn rhai achosion maent yn hollol anymwybodol o'r cynnig prif lif. Mae angen am ofod pwrpasol i hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli mewn ffordd sy'n hygyrch ac wedi ei deilwra i anghenion pobl gydag anableddau dysgu. Er bod rhai adnoddau hawdd eu darllen am wirfoddoli ar gael, nid yw hyn yn agos i gyfateb â'r adnoddau sydd ar gael i rywun heb anabledd. Nid oes raid i ddarpariaeth gwirfoddoli ar gyfer pobl ag anableddau dysgu fod mewn cystadleuaeth a'r llwyfannau prif lif. Mae angen am well cydweithio ar draws y sector i ddarparu'r gefnogaeth orau ar gyfer gwirfoddolwyr gydag anghenion ychwanegol.

Innovate Trust

# Beth sydd nesaf?

Er bod cam 1 o’r prosiect Archwilwyr Insight yn dod i ben y mis hwn, rydym wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn ariannu pellach gan raglen Grantiau Strategol CGGC i ariannu lansiad Hwb Gwirfoddoli Insight. Rydym yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid allweddol megis y CGGC a’u gwefan Gwirfoddoli Cymru, SVC, GVS, C3SC a chanolfannau gwirfoddoli lleol eraill sydd i gyd yn awyddus i ehangu’r tirlun gwirfoddoli i’w wneud yn fwy hygyrch. Byddwn hefyd yn cychwyn ar ddarn o waith cyffrous gydag Anabledd Dysgu Cymru i archwilio ymarfer da o ran adnoddau sain a fideo hawdd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Mae Insight yn cael ei yrru gan ei aelodaeth – rydym yn frwd dros sicrhau bod yr ap yn parhau i adlewyrchu a chwrdd â'u hanghenion newidiol. Ar hynny byddwn yn parhau i ymgynghori gydag aelodau Insight i sicrhau bod yr ap yn darparu’r hyn maent hwy ei eisiau. Byddwn hefyd yn parhau i uwchsgilio aelodau, i ddod a phartneriaid newydd i mewn ac i adolygu gofynion hygyrchedd i sicrhau fod Insight yn addasu ac yn tyfu ochr yn ochr â’i ddefnyddwyr.





# Ac yn olaf, diolch yn fawr

Diolch i'n holl bartneriaid ac aelodau sy'n parhau i wneud Insight y llwyddiant yr ydyw heddiw.

Diolch i Lywodraeth Cymru a CGGC a ariannodd y prosiect Archwilwyr Insight trwy eu Cronfa Grantiau Strategol.